# Newyddlen Menter y Tŵr

Y TŴR PWLLHELI

**Awst 2025**

# Cyllid! Newyddion Cyffrous.

Rydym yn hynod falch o gyhoeddi ein bod wedi derbyn grant gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol gwerth £215,790.
Bydd y cyllid hwn yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cam datblygu'r prosiect. Bydd hyn yn ein galluogi i baratoi'r cais llawn ar gyfer buddsoddiad cyfalaf er mwyn gwireddu'r weledigaeth o drawsnewid Y Tŵr yn westy, hwb cymunedol a threftadaeth lewyrchus yng nghanol Pwllheli.
Gallwch weld y contractau a'r cyfleoedd i weithio gyda'r prosiect ar wefan Y Twr ac ar Gwerthwch i Gymru.

Gwnaed yn bosibl gan | Made possible with
Cronfa Treftadaeth
Heritage Fund

Mae'r cam Datblygu yn cynnwys:

- Penodi Rheolwyr Prosiect. Croeso i Sion Jones a Caryl Lewis.
- Penodi Swyddog Datblygu Busnes. Dyddiad cau 12 Medi 2025. Ewch ar y wefan am wybodaeth bellach

Bydd hefyd yn ariannu Cynllun Dehongli, Cynllun Gweithgareddau, Cynllun Busnes, Cynllun Dylunio Mewnol, Cynllun Rheoli, Cynnal arolygon a gwaith ymchwil, Cynnal cyfres o weithgareddau cymunedol er mwyn ymgynghori, cynllunio a profi gwerth y prosiect er budd y gymuned.
Ein nod yw denu cyllid pellach er mwyn adnewyddu tu mewn yr adeilad ac ail-ddatblygu'r cwrt a'r stablau yng nghefn Y Twr.

## Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

Cynhelir Cyfarfod Blynyddol Menter y Twr, gydag adloniant arbennig nos Wener 26 Medi. Bydd pawb sydd gan ebost eisoes wedi derbyn gwahoddiad, ac rydym wrthi yn cysylltu yn unigol gyda phawb arall sydd heb gyfeiriad ebost. Mynediad i gyfranddalwyr yn unig i'r Cyfarfod Blynyddol. Bydd mwy o wybodaeth i ddilyn ynglyn a'r adloniant.

**Yn y newyddlen hon**


Newyddion Cyllid cyffrous

Cyfarfod Blynyddol Menter Y Twr

Rhun ap Iorwerth yn ymweld á Mentrau Cymunedol Pwllheli.

Calendr Digwyddiadau

# Sylw Gwleidydd ar Bwllheli.



Rhun Ap Iorwerth AS gydag cynrychiolaeth o Fenter Y Twr, Ffrindiau Pwllheli a Cyfle.

Ddiwedd Gorffennaf cawsom y pleser o ddangos Y Twr ar ei newydd-wedd i Rhun ap Iorwerth Arweinydd Plaid Cymru yn Senedd Cymru.
Daeth Rhun i Bwllheli i gyfarfod sawl un o'r mentrau cymunedol brwdfrydig sydd yn gweithio yn galed i wneud gwahaniaeth i'r dref.
Treuliodd y prynhawn yn clywed am waith gwerthfawr Ffrindiau Pwllheli a Cyfle, ac am ddatblygiadau diweddaraf Menter Y Twr.

Dywedodd Carys Owen, Cadeirydd Menter y Twr. "Roeddem yn falch o gael dangos Y Twr wedi ei baentio mor smart i Rhun a trafod ein cynlluniau tymor byr a tymor hir gydag o. Mae'n amser cyffrous iawn i ni ac i sawl menter arall yn y dref sydd yn datblygu prosiectau. Mae'r cydweithio cadarnhaol sydd yn digwydd rhyngom ni a Ffrindiau Pwllheli a Cyfle yn bleser ac yn cadarnhau pam fod gwirfoddolwyr yn buddsoddi cymaint o amser ac egni i'r prosiectau er budd pobol Pwllheli a'r ardal ."

## Calendr Digwyddiadau

**09 Medi 2025**

Noson **Bingo** yng nghlwb Golff Pwllheli.

**17 Hydref 2025**

Clwb Golff Pwllheli. **Ocsiwn Addewidion**. Drysau yn agor 6.30pm a'r Ocsiwn yn cychwyn 7.00pm.

**18 Hydref 2025**

Cyngerdd **Cor Y Brythoniaid a Lleucu Gwawr** yn Neuadd Dwyfor, Pwllheli. Raffl er budd Menter y Tŵr .

## Gwirfoddoli

Cofiwch mae digon o gyfleoedd i fod yn rhan o Fenter Y Twr. Cysylltwch á ni i drafod ymhellach drwy yrru neges i yTŵrpwllheli@gmail.com neu drwy ein cyfryngau cymdeithasol.

*Criw Y Twr x*

www.ytwr .cymru